



Mawrth 2010.

Awdurdod S4C – Aelodau Newydd

Mae Ben Bradshaw, Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, wedi penodi Glenda Jones a John Davies fel Aelodau o Awdurdod S4C. Bydd eu penodiad am bedair blynedd o 1 Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2014.

Dr Glenda Jones

Wedi graddio mewn llenyddiaeth Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth fe barhaodd Glenda ei hastudiaethau drwy astudio Cymraeg Canol yn Aberystwyth, a oedd yn cynnwys cyfnod o amser yng Ngholeg St Ioan yng Nghaergrawnt, cyn derbyn ei doethuriaeth yn 1990 o Goleg Prifysgol Cymru. Wedi gweithio ym myd darlledu am dros 20 o flynyddoedd fe dreuliodd Glenda 15 mlynedd yn gweithio i'r BBC yng Nghaerdydd yn yr Adran Cynhyrchu Teledu - 10 mlynedd fel Uwch Gynhyrchydd i'r Gorfforaeth gan weithio yn y diwedd fel Prif Gynorthwydd i Gyfarwyddwr BBC Cymru. Yn 2000 fe fentrodd i weithio ar liwt ei hun ym maes cyfryngau a chyfathrebu a gweithiodd ar nifer o brosiectau rheoli a chynhyrchu. Bu Glenda yn aelod o Bwyllgor Rheoli BAFTA Cymru (2000-2006), gan gadeirio'r Pwyllgor (2003-2005). Glenda yw Cadeirydd ymddiriedolwyr Cronfa Goffa Ryan Davies.

Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf mae Glenda wedi cynyddu ei gwaith yn y maes hyfforddi a hyrwyddo ar gyfer cleientiaid yn y sector breifat a chyhoeddus ac yn ddiweddar fe gymhwysodd fel arolygydd lleyg Estyn.

John Davies ARAgS, MRAC, OND.

Y Cynghorydd John Davies yw Arweinydd Cyngor Sir Benfro. Cyn hynny roedd yn aelod o gabinet yr Awdurdod gyda chyfrifoldebau dros Blant, Addysg a'r Iaith Gymraeg mewn cyfnod o newid mawr yn y Sector Addysg Gynradd yn Sir Benfro. Mae hefyd yn gyn gyfarwyddwr bwrdd arholi CBAC a Chyngor Llyfrau Cymru. Am naw mlynedd ef oedd y llais gwledig ar Gyngor Defnyddwyr Trydan ac yna daeth yn aelod o Golwg ar Ynni Cymru. Yn ogystal mae John yn gyn Ddirprwy Lywydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gwasanaethodd am nifer o flynyddoedd fel ei llefarydd dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Ers 2008 ef yw Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rhwng 2004 a 2008 roedd yn aelod o banel cynghori gweinidogaethol Llywodraeth y Cynulliad dros Safonau Ysgolion a Gwelliannau a tan 2008 fe gynrychiolodd Cymru ar y Corff Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyfer Athrawon Ysgol. Mae'n aelod o Awdurdod Heddlu Dyfed Powys.

Cefndir

1. Sefydlwyd S4C (Sianel Pedwar Cymru) i ddarparu ystod eang o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel yn y Gymraeg. Mae Awdurdod S4C yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau S4C a sicrhau bod S4C ac S4C Digidol yn cael eu darparu fel gwasanaethau cyhoeddus. Hefyd mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol, gan gynnwys rheolaeth ariannol, yn bodoli ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a masnachol S4C.
2. Y tâl presennol ar gyfer Aelodau'r Awdurdod yw £9,370 y flwyddyn ar gyfer 1 diwrnod enwol yr wythnos.
3. Mae'r apwyntiadau yma wedi eu gwneud yn unol â Chôd Ymarfer Swyddfa'r Comisiynydd Apwyntiadau. Gwneir apwyntiadau ar deilyngdod ac nid yw gweithgareddau gwleidyddol yn chwarae rhan yn y broses dethol.